Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mehefin 2026

# Cyflwyniad i CPCC i aelodau'r Senedd

## Pwy ydym ni a beth rydyn ni'n ei wneud

**Cysylltu tystiolaeth â gwneud penderfyniadau i wella polisi a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru**

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn sefydliad brocera gwybodaeth annibynnol blaenllaw sy'n cysylltu llunwyr polisi â thystiolaeth i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fe'i lleolir ym Mhrifysgol Caerdydd ac rydyn ni'n pontio'r bwlch rhwng ymchwil a gwneud penderfyniadau drwy sicrhau bod arbenigedd a thystiolaeth drylwyr ar gael, yn berthnasol ac y gellir ei gweithredu i lunwyr polisi, ymarferwyr ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

### Ein gweledigaeth

Cymru lle mae ymarfer cyhoeddus a pholisïau'n cael eu llunio'n gyson ar sail y dystiolaeth a'r wybodaeth orau sydd ar gael, gan arwain at wasanaethau cyhoeddus sy'n fwy effeithiol, teg ac ymatebol.

### Ein cenhadaeth

**NODI**

Rydyn ni'n gweithio ar y cyd â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i'w helpu i nodi eu heriau polisi mwyaf difrifol a llunio cyfleoedd ystyrlon er mwyn creu atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**YMGYNNULL**

Rydyn ni'n dadansoddi ac yn cyfosod ymchwil o safon uchel mewn modd amserol ac rydyn ni'n dwyn ynghyd arbenigwyr yn y DU ac yn fyd-eang i wella penderfyniadau polisi, a'r broses o'u rhoi ar waith.

**DATBLYGU**

Rydyn ni'n ehangu gwybodaeth ym maes polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy rannu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu, gwerthuso effaith, a chyfrannu at gronfa wybodaeth gynyddol o'r hyn sy'n gweithio'n ymarferol.

Rydyn ni wedi cynnal mwy na 220 o brosiectau ar gyfer llunwyr polisi Cymru, wedi sefydlu perthynas â rhwydwaith byd-eang o ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw, ac wedi datblygu dull arobryn o ddefnyddio tystiolaeth.

## Ymchwil ac effaith

Mae ein holl waith i lunwyr polisïau yng Nghymru wedi'i seilio ar ymchwil academaidd sy'n arwain y sector ar yr hyn sy'n pontio'r bwlch rhwng ymchwil a llunio polisïau.

O ganlyniad, mae llywodraethau ledled y byd yn aml yn ymgynghori â ni, ac yn awyddus i efelychu'r model rydyn ni wedi'i greu.

Nodi | Ymgynnull | Datblygu

www.wcpp.org.uk/cy

# Ein gwaith

Mae gennyn ni 12 mlynedd o brofiad o lunio polisïau yng Nghymru, gan gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gyda thystiolaeth ac arbenigedd annibynnol a llunio polisïau a dulliau o'u gweithredu mewn ystod eang o feysydd gan gynnwys yr economi, sgiliau ac addysg; llywodraethu a defnyddio tystiolaeth; amgylchedd; cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb; a theuluoedd, plant a phobl ifanc.

Rydyn ni hefyd yn bartner blaenllaw yng Nghydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd Rhondda Cynon Taf (HDRC) gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae HDRC Rhondda Cynon Taf yn helpu'r Cyngor i greu diwylliant ymchwil bywiog o fewn yr awdurdod lleol. Mae hyn yn ysgogi proses sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau i dorri cylch tlodi, gwella cyfleoedd bywyd y rhai mwyaf difreintiedig, a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.

# Uchafbwyntiau diweddar

## Costau byw a thlodi plant

Ym mis Chwefror 2026, daeth ein gweminar Troi'r llanw ar dlodi plant â phanel arbenigol at ei gilydd i ystyried y ffordd orau i Lywodraeth nesaf Cymru atal a lleihau tlodi plant, yn ogystal â chefnogi teuluoedd sy'n profi caledi ariannol.

Fel rhan o'n Hadolygiad – Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol, fe wnaethom ddod â thystiolaeth 'beth sy'n gweithio' at ei gilydd ar draws deuddeg maes polisi, gan gynnwys manteisio ar drosglwyddiadau ariannol, trafnidiaeth, tai a thlodi ynni. Gan adeiladu ar hyn, rydyn ni wedi datblygu rhaglen waith i alluogi awdurdodau lleol i gymryd dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o atal a mynd i'r afael â stigma tlodi, gan gynnwys cyflwyno prosiect seiliedig ar le yn Abertawe gydag arbenigwyr â phrofiad personol.



## Digartrefedd a thai

Rydyn ni'n gweithio gyda'r Ganolfan Effaith Digartrefedd i gefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gymryd dull mwy ataliol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o leihau digartrefedd a'r angen am lety dros dro. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn casglu tystiolaeth ('Sbrint Tystiolaeth') yng Ngogledd Cymru ar gyfer cynghorau Ynys Môn a Sir y Fflint.

Yn Ne Cymru, ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf, rydyn ni'n defnyddio tystiolaeth ar effeithiau digartrefedd a'r hyn sy'n gweithio i'w atal ar gyfer aelwydydd un person, fel rhan o brosiect HDRC mwy i fapio a chryfhau gwariant ataliol yn y maes hwn.

## Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd

Fel rhan o'n gwaith yn HDRC RhCT, rydyn ni wedi bod yn cefnogi eu gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae gwaith diweddar wedi cynnwys diffinio a mesur gwariant ataliol, a'i effeithiau. Mae'r gwaith hwn, sydd wedi defnyddio a chyfrannu at brosiect ledled y DU dan arweiniad CIPFA ac wedi'i gefnogi gan y Sefydliad Iechyd, wedi ennyn diddordeb ledled y DU.

## Anghydraddoldebau addysgol

Ar ran Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, buom yn gweithio i nodi'r ffactorau sy'n sbarduno cyfle cyfartal yn y sector trydyddol yng Nghymru.

Yn ôl ein hadroddiad, Deall annhegwch mewn addysg drydyddol yng Nghymru, nid yw mynediad at addysg drydyddol yng Nghymru yn gyfartal ymhlith dysgwyr. Canfuwyd mai rhai o'r prif ffactorau yw dosbarth economaidd-gymdeithasol ac amddifadedd, ac mae cyfranogiad yn gymharol isel yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU. Mae angen profi a gwerthuso arfer gorau mewn mannau eraill a llwyddiant cynlluniau presennol i ehangu cyfranogiad.



## Adeiladu ffyniant drwy broses bontio gyfiawn

Tynnodd ein gweminar ddiweddar, datblygu economïau lleol ffyniannus drwy broses bontio gyfiawn, sylw at sut y gall Cymru ddefnyddio potensial datgarboneiddio i sicrhau dyfodol mwy llewyrchus, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes mynediad at gyfleoedd economaidd ar hyn o bryd. Trwy fanteisio i'r eithaf ar y cyfle yn sgil technolegau newydd a seilwaith ynni newydd gellir cefnogi safonau byw yn well ledled Cymru.

Mae hyn yn adeiladu ar ein gwaith blaenorol sy'n edrych ar ddulliau seiliedig ar leoedd o ddatgarboneiddio, gan gynnwys Ôl-osod Domestig: Ysgogi Twf Gwyrdd a Thegwch Cymdeithasol - adroddiad ar gyfer Cyngor Caerdydd; a throsglwyddiad sero net dan arweiniad awdurdodau lleol, adroddiad ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Fe wnaethom roi tystiolaeth i Lywodraeth flaenorol Cymru ar lywodraethu marchnadoedd carbon gwirfoddol a sut y gellid cymhwyso'r gwersi hyn yng Nghymru, ac ar bynciau gan gynnwys y sgiliau sero net sydd eu hangen ar ddiwydiant. Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd gan gynnwys symud tuag at economi werdd.

Yn ogystal â hyn, fe wnaethom gefnogi Grŵp Herio Cymru Sero Net 2035 a edrychodd ar ffyrdd o gyflymu datgarboneiddio, a sefydlwyd o dan y Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a Llafur Cymru. Bu'r dystiolaeth a ddarparwyd gennym o gymorth i waith y Grŵp ar draws ei bum maes her: bwyd, ynni, trafnidiaeth, tai, ac addysg a sgiliau.

**'Roedd yn hanfodol bod ein hadroddiadau ar y llwybrau at sero net wedi'u gwreiddio yn y dystiolaeth orau sydd ar gael, ac felly roedd gwaith annibynnol WCPP i gefnogi'r grŵp yn gyfraniad hanfodol.'**

**Jane Davidson, Cadeirydd, Grŵp Herio Cymru Sero Net 2035**

## Llesiant cymunedol

Mae ein ffocws ar lesiant cymunedol yn adeiladu ar gorff o waith i lywio dulliau o wella cysylltiad cymunedol, gan gynnwys ymchwil i rôl gweithredu cymunedol i fynd i'r afael ag unigrwydd yn ystod y pandemig ac adolygiad o dystiolaeth i natur ac achosion anghydraddoldebau unigrwydd.

Yn ddiweddar, rydyn ni wedi bod yn gweithio fel aelod craidd o'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar ac wedi cyhoeddi adroddiadau sy'n nodi tystiolaeth ac arbenigedd i hwyluso cydweithio edffeithiol rhwng y sectorau cyhoeddus a chymunedol yng Nghymru, fel dull allweddol i gryfhau llesiant cymunedol. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â Lab Cyd-gynhyrchu Cymru i ddatblygu adnodd digidol i gefnogi sefydliadau sy'n ymwneud â phartneriaethau amlsector i gymryd camau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gynnal a chryfhau eu cydweithio.

Yn ein gweminar diweddar, Cryfghau cydlyniant cymunedol, cyfeiriwyd at ein hadroddiad i gefnogi'r Grŵp Arbenigol annibynnol ar Gydlyniant Cymdeithasol a sefydlwyd gan Lywodraeth flaenorol Cymru mewn ymateb i argymhelliad gan ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd i Gydlyniant Cymdeithasol yng Nghymru.

**'Roedd dadansoddiad [WCPP] yn sylfaenol i helpu'r Grŵp i ddeall beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym sy'n gweithio a nodi camau gweithredu a argymhellir.'**

**Jane Hutt, cyn Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru**

## Llywodraethu a diwygio gwasanaethau cyhoeddus

Yn dilyn ein hadroddiad ar weithredu'n effeithiol, rydyn ni wedi datblygu arbenigedd mewn cefnogi llywodraethu effeithiol ac effeithlon yng Nghymru, gan gynnwys drwy nodi cyfleoedd ar gyfer newid.

Fe wnaethom gefnogi Llywodraeth flaenorol Cymru i nodi'r llwybrau a'r dulliau posibl ar gyfer datganoli gwasanaethau prawf i Gymru, gan nodi tri llwybr posibl a thystiolaeth ryngwladol ar Adeiladu gwasanaeth prawf yng Nghymru. Wedi hynny, gofynnwyd i ni edrych yn fanylach ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â dull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: roedd ein hadroddiad, Model unigryw ar gyfer y gwasanaeth prawf yng Nghymru, yn cefnogi cytundeb i weithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yng Nghymru.

Fe wnaethom hefyd gefnogi adolygiad o wariant Llywodraeth Cymru sy'n tynnu sylw at y potensial ar gyfer cynllunio cyllidebol a fframweithiau tymor hir i ddiwallu anghenion yn y dyfodol yn well.

## Gweithgor Annibynnol ar Lywodraeth Leol Gynaliadwy ar gyfer y Dyfodol

Mae tystiolaeth yn cefnogi'r farn bod y model presennol ar gyfer llywodraeth leol yn anghynaliadwy a bod gweledigaeth newydd yn bwysig i lywodraeth leol barhau i wasanaethu ei dinasyddion ymhell i'r dyfodol.

Gan weithio gyda CLlLC, fe wnaethom gynnull y gweithgor Annibynnol ar lywodraeth leol gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys aelodau etholedig a phrif weithredwyr o awdurdodau lleol Cymru ac arbenigwyr annibynnol.

Mae'r grŵp wedi cyhoeddi ei farn yn Sylfaen gadarn dros newid, gan nodi cyfres o gamau y dylai Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol Cymru eu cymryd i gefnogi llywodraeth leol gynaliadwy, ddemocrataidd ac ymatebol yng Nghymru. Bydd ei allbwn terfynol yn cael ei gyhoeddi yn haf 2026.

**'Os ydym am barhau i gyflawni ar gyfer ein cymunedau, mae'n hanfodol ein bod yn wynebu'r heriau hyn yn uniongyrchol ac yn gweithio tuag at atebion hirdymor, cynaliadwy. Mae'r grŵp hwn yn cynnig cyfle i ni gymryd rheolaeth o'n dyfodol a sicrhau sector gwasanaethau cyhoeddus cryf a gwydn yng Nghymru.'**

**Y Cynghorydd Andrew Morgan OBE, cyn-arweinydd CLlLC**

## Sut allwn ni eich helpu chi

Fel Canolfan What Works Cymru, ein rôl yw helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud, ac i gymhwyso'r wybodaeth hon yng nghyd-destun Cymru. Rydyn ni'n annibynnol, yn amhleidiol, ac yn canolbwyntio ar gefnogi proses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yng Nghymru.

Mae holl allbynnau WCPP yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Os ydych chi'n meddwl y gallwn gefnogi eich gwaith, cysylltwch â info@wcpp.org.uk

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**
Caerdydd, Sbarc | Spark,
Heol Maendy, Caerdydd CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy
@WCfPP
info@wcpp.org.uk
/company/wcfpp
029 2087 5345

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
UKRI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru / Welsh Government